

## **RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 13 Medi 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00yp dydd Mercher, 15 Medi 2021, a daw'r penderfyniad i rym ar unwaith. Mae'r penderfyniad wedi'i eithrio rhag galw i mewn drwy gytundeb ymlaen llaw gyda Chadeirydd y Cyngor oherwydd gofynion amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried y mater.

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Aled M. Jones, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dylan Rees, Dafydd Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Ieuan Williams

(10:00yb tan 10:25yb)

### **EITEM GYFRINACHOL**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3</b> <b>Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni - SOC/OBC ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) ar gyfer y bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.</b></li><li>• <b>Cymeradwyo cyflwyno'r AAS/ABA i Lywodraeth Cymru.</b></li><li>• <b>Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.</b></li><li>• <b>Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ddiwygio'r AAS/ABA os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at</b></li></ul>

	<p>newidiadau perthnasol (yn nhermau polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd partïon).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Neilltuo cyllid datblygwyr o ddatblygiadau Tai o fewn dalgylch Ysgol y Graig i gyfrannu tuag at gost y prosiect.</li> <li>• Gyda chytundeb ymlaen llaw Cadeirydd y Cyngor, eithrio hawl Sgrwtini i alw'r penderfyniad i mewn gan y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol mewn cyfarfod ar 16 Medi 2021. Byddai unrhyw oedi o ran dyrannu cyllid yn niweidiol i ba mor gyflym y gellid rhoi'r prosiect ar waith.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Gweithredu cam nesaf y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Cyfrannodd y canlynol yn ystod y broses ymgynghori statudol – Aelodau Etholedig Lleol; Aelod Seneddol Lleol; Aelod Senedd Lleol; Aelodau Senedd Rhanbarthol; GwE; Estyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; Llywodraeth Cymru; Comisiynydd yr Iaith Gymraeg; Awdurdodau Lleol cyfagos; Cyngorau Tref a Chymuned Lleol; Undebau Llafur Athrawon a Staff yn cynrychioli Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn; Cylch Meithrin Ysgol Talwrn; Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni; Uwch Swyddogion CSYM; Prif Swyddog Ieuenctid CSYM; partïon eraill â diddordeb</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Na. Mae'r mater wedi cael ei eithrio rhag galw i mewn. Gweler y penderfyniad uchod.</b>